PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**

**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 1

# *Cyfranogiad yng Nghymru*

# Llawlyfr Gwaith

International Politics Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# LLAWLYFR GWAITH

## CWESTIWN 1

Diffiniwch y term canran bleidleisio.

## CWESTIWN 2

Amlinellwch nodweddion democratiaeth uniongyrchol.

## CWESTIWN 3

Sut mae'r ganran bleidleisio mewn etholiadau i San Steffan yn amrywio yn ôl oedran?

Astudiwch y data yn y tabl ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**AMCANGYFRIF O'R GANRAN BLEIDLEISIO MEWN ETHOLIADAU I SAN STEFFAN YN ÔL OEDRAN**

| | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1964*** | 76.4% | 70.7% | 79.5% | 79.1% | 78.4% | 76.7% | 77.1% |
| **1966*** | 60.5% | 70.8% | 80.0% | 79.8% | 78.0% | 75.9% | 75.8% |
| **1970** | 64.9% | 66.5% | 72.8% | 74.9% | 74.1% | 77.2% | 72.0% |
| **1974** | 70.2% | 77.2% | 78.7% | 73.1% | 82.2% | 79.2% | 78.8% |
| **1974** | 62.5% | 69.0% | 73.9% | 76.6% | 76.6% | 76.0% | 72.8% |
| **1979** | 62.5% | 72.4% | 76.3% | 81.2% | 81.4% | 77.7% | 76.0% |
| **1983** | 63.9% | 67.6% | 76.2% | 77.6% | 77.2% | 73.1% | 72.7% |
| **1987** | 66.6% | 74.0% | 74.9% | 79.9% | 78.9% | 76.0% | 75.3% |
| **1992** | 67.3% | 77.3% | 78.3% | 81.8% | 78.1% | 79.2% | 77.7% |
| **1997** | 54.1% | 62.2% | 70.2% | 76.4% | 79.9% | 77.7% | 71.4% |
| **2001** | 40.4% | 45.0% | 55.7% | 63.2% | 64.0% | 70.1% | 59.4% |
| **2005** | 38.2% | 47.7% | 61.6% | 65.5% | 72.6% | 74.3% | 61.3% |
| **2010** | 51.8% | 57.3% | 64.4% | 67.5% | 69.8% | 74.7% | 65.0% |
| **2015** | 51.5% | 52.0% | 60.3% | 70.1% | 74.1% | 78.8% | 66.1% |
| **2017** | 64.7% | 62.8% | 65.6% | 68.6% | 72.3% | 75.0% | 68.8% |

Ffynhonell: Dempsey (2017: *Turnout at elections* ar sail data'r *British Election Study*)

*Mae'r data ar gyfer 1964 ac 1966 yn cyfeirio at bobl 21-24 oed gan taw'r oedran pleidleisio oedd 21 nid 18 oed.

i: Beth yw'r prif duedd o ran y ganran bleidleisio mewn etholiadau i San Steffan rhwng 1964 a 2017?

ii: Ymysg pa grwpiau oedran mae'r ganran bleidleisio ar ei huchaf mewn etholiadau i San Steffan?

iii: Ymysg pa grwpiau oedran mae'r ganran bleidleisio isaf mewn etholiadau i San Steffan?

iv: Dewiswch etholiad diweddar gydag un ai lefel cymharol isel o ran niferoedd pleidleisio (e.e. Etholiad Cyffredinol 2001) neu etholiad â niferoedd pleidleisio uchel (e.e. Etholiad Cyffredinol 2017).

Ymchwiliwch yn bellach i'r etholiad hwnnw a thrafodwch y ffactorau sy'n cael eu hystyried fel rhai ddylanwadodd ar y ganran bleidleisio yn yr etholiad penodol hwnnw.

## CWESTIWN 4

### Asesu canlyniadau a'r ganran bleidleisio benodol mewn un etholiad yng Nghymru

Astudiwch y data isod o ganlyniad Etholiad Cyffredinol 2010 sy'n amlinellu'r canlyniadau yn y ddwy etholaeth gyda'r ganran bleidleisio isaf ac uchaf yn yr etholiad hwnnw yng Nghymru. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**ETHOLAETH DWYRAIN ABERTAWE**

| PLAID | CANLYNIAD ETHOLIAD 2010 | ERS ETHOLIAD 2005 |
|---|---|---|
| **Llafur** | 51.5% | –5.1% |
| **Ceidwadwyr** | 14.8% | +4.7% |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | 18.3% | –1.8% |
| **Plaid Cymru** | 6.7% | –0.2% |
| **Arall** | 8.8% | +2.5% |

Canlyniad: Llafur yn cadw'r sedd

Y ganran bleidleisio yn yr etholaeth 2010 – 54.6%

Y ganran bleidleisio yn yr etholaeth 2005 – 53.6%

**ETHOLAETH GOGLEDD CAERDYDD**

| PLAID | CANLYNIAD ETHOLIAD 2010 | ERS ETHOLIAD 2005 |
|---|---|---|
| **Llafur** | 37.1% | –1.9% |
| **Ceidwadwyr** | 37.5% | +1.0% |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | 18.3% | –0.4% |
| **Plaid Cymru** | 3.3% | –0.9% |
| **Arall** | 3.8% | +2.3% |

Canlyniad: Ceidwadwyr yn ennill y sedd gan Lafur

Y ganran bleidleisio yn yr etholaeth 2010 – 72.7%

Y ganran bleidleisio yn yr etholaeth 2005 – 70.4%

Y ganran bleidleisio Cymru gyfan: Etholiad 2010 – 64.9%, Etholiad 2005 – 62.7% (data BBC)

Ffynhonell: Cracknell, McGuinness a Rhodes (2011) General Election 2010

i: Beth mae'r data yn ei awgrym o ran amrywiaeth y ganran bleidleisio rhwng etholaethau gwahanol mewn etholiad?

ii: Gan ddefnyddio'r data a deunydd ddewch o hyd iddo wrth ymchwilio yn bellach, eglurwch pa ffactorau sy'n dylanwadu ar wahaniaethau yn y ganran bleidleisio rhwng etholaethau gwahanol.

## CWESTIWN 5

### Y ganran bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru

Cwblhewch y tabl isod sy'n dangos y nifer pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru rhwng 1999 a 2017. Defnyddiwch ffynonellau fel canlyniadau etholiadau ar wefan y BBC, adroddiadau ymchwil gan y Cynulliad a Senedd San Steffan i gael y data.

| ETHOLIAD | ETHOLAETH | RHANBARTH |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol 1999 | 46.4% | 46.3% |
| Etholiad Cyffredinol 2001 | | X |
| Cynulliad Cenedlaethol 2003 | | 38.1% |
| Etholiad Cyffredinol 2005 | 62.4 | X |
| Cynulliad Cenedlaethol 2007 | | |
| Etholiad Cyffredinol 2010 | 65.6 | X |
| Cynulliad Cenedlaethol 2011 | 41.5% | |
| Etholiad Cyffredinol 2015 | | X |
| Cynulliad Cenedlaethol 2016 | | 45.5% |
| Etholiad Cyffredinol 2017 | | X |

## CWESTIWN 6: Pwy sy'n pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru?

Mae'r data hwn ar sail arolwg yn asesu ymddygiad pleidleisio yn Etholiad y Cynulliad 2016 ac yn asesu'r gefnogaeth i'r pleidiau gwahanol ar sail nodweddion cymdeithasol gwahanol: oedran, lefelau addysg, rhyw, statws o ran tŷ, safle cymdeithasol, yr iaith Gymraeg a man geni. Astudiwch y data ac yna atebwch y cwestiynau.

**Y GANRAN BLEIDLEISIO ETHOLAETHOL YN ETHOLIAD Y CYNULLIAD 2016 I'R PRIF BLEIDIAU YN ÔL CATEGORI CYMDEITHASOL**

| NEWIDYN | LLAFUR | CEIDWADWYR | DEM RHYDD | PLAID | UKIP |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | |
| 18-24 | 38 | 9 | 12 | 23 | 10 |
| 25-34 | 37 | 14 | 8 | 27 | 7 |
| 35-44 | 39 | 16 | 7 | 22 | 9 |
| 45-54 | 35 | 14 | 8 | 20 | 15 |
| 55-64 | 32 | 19 | 8 | 21 | 17 |
| 65+ | 24 | 30 | 7 | 19 | 17 |
| **Addysg** | | | | | |
| Dim cymhwyster ffurfiol | 32 | 18 | 4 | 18 | 24 |
| TGAU/Lefel-O/cyfystyr | 30 | 25 | 4 | 20 | 16 |
| Lefel-A/cyfystyr | 34 | 16 | 8 | 22 | 12 |
| Prifysgol neu cyfystyr | 35 | 17 | 10 | 23 | 7 |
| Cymhwyster arall | 28 | 21 | 9 | 20 | 18 |
| **Rhywedd** | | | | | |
| Gwryw | 31 | 20 | 8 | 20 | 16 |
| Benyw | 33 | 19 | 8 | 23 | 11 |
| **Sefyllfa Tŷ** | | | | | |
| Perchennog tŷ | 29 | 24 | 7 | 21 | 14 |
| Rhentu Cyngor/ Cymdeithas Dai | 41 | 10 | 6 | 19 | 20 |
| Rhentu Preifat | 38 | 10 | 9 | 22 | 12 |
| **Statws Cymdeithasol** | | | | | |
| AB | 34 | 25 | 7 | 20 | 10 |
| C1 | 32 | 18 | 9 | 23 | 12 |
| C2 | 31 | 17 | 5 | 22 | 18 |
| DE | 31 | 18 | 9 | 19 | 17 |
| **Iaith Gymraeg** | | | | | |
| Rhugl | 26 | 12 | 6 | 47 | 6 |
| Ddim yn Rhugl | 36 | 12 | 11 | 26 | 10 |
| Ddim yn siarad | 30 | 23 | 7 | 16 | 17 |
| **Man Geni** | | | | | |
| Cymru | 34 | 16 | 5 | 27 | 13 |
| Lloegr | 27 | 26 | 11 | 13 | 16 |
| Arall | 35 | 15 | 9 | 15 | 17 |

Ffynhonell: Scully a Larner (2016) 522: ar sail data o'r Arolwg Etholiad Cymreig 2016 (*Welsh Election Study 2016*).

i: I ba raddau mae gwahanol nodweddion cymdeithasol yn cynorthwyo i egluro sut mae gwahanol bleidleiswyr wedi pleidleisio?

ii: Beth yw'r patrymau pleidleisio yn ôl oedran?

iii: Pa mor arwyddocaol yw iaith er mwyn deall sut bleidleisiodd gwahanol etholwyr?

## CWESTIWN 7
### Pobl ifanc a phleidleisio yng Nghymru

Dewiswch un o'r adroddiadau canlynol sydd wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn trafod pobl ifanc a gwleidyddiaeth yng Nghymru.

1. Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru (2015) *Pŵer yng Nghymru II: Pŵer a llais pobl ifanc yng Nghymru*

   https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/pwer-yng-nghymr/?lang=cy

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

i: Pa ffactorau mae'r adroddiad yn dadlau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl ifanc i ymatal rhag pleidleisio?

ii: Eglurwch pa gamau sy'n cael eu hargymell er mwyn annog mwy o bobl ifanc i bleidleisio.

2. Pennod 5 'Yr Oedran Pleidleisio Isaf' (tud. 185-215) Adroddiad Y Panel ar Ddiwygio Etholiadol (2017). *Senedd Sy'n Gweithio i Gymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/pwer-yng-nghymr/?lang=cy

i: Amlinellwch ac aseswch y dystiolaeth a gynigir o blaid ac yn erbyn lleihau'r oedran pleidleisio isaf i 16 oed o ran ei effaith ar lefelau cyffredinol o gyfranogiad gwleidyddol.

ii: Trafodwch farn gwahanol sefydliadau a mudiadau a gyflwynodd dystiolaeth i'r panel o ran lleihau'r oedran pleidleisio isaf i 16 oed.

iii: Gwerthuswch argymhellion y Panel o ran yr oedran pleidleisio isaf (Argymhellion 14 ac 15).

**CWESTIWN 8**

Dadansoddwch a yw'r syniadau o blwraliaeth ac elitiaeth yn ein cynorthwyo i ddeall ble mae grym o fewn y system wleidyddol yn y DU?

**CWESTIWN 9**

Trafodwch i ba raddau mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y cenedlaethau o ran agwedd ac ymddygiad gwleidyddol a sut mae egluro'r gwahaniaethau hyn?

**CWESTIWN 10**

Aseswch pa ffactorau sy'n dylanwadu ar barodrwydd dinasyddion i bleidleisio?

**CWESTIWN 11**

Gwerthuswch ddulliau all gael eu defnyddio i annog mwy i bleidleisio.

**CWESTIWN 12**

Trafodwch i ba raddau mae'r gostyngiad yn y ganran bleidleisio mewn etholiadau yn y DU yn awgrymu argyfwng i ddemocratiaeth.

**FFYNONELLAU**


Adroddiad Y Panel ar Ddiwygio Etholiadol (2017). *Senedd Sy'n Gweithio i Gymru*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/pwer-yng-nghymr/?lang=cy

Cracknell, R., McGuiness, F., Rhodes, C. (2010) *General Election 2010*, House of Commons Library Research Paper 10/36 https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/RP10-36

Cymdeithas Newid Etholiadol Cymru (2015) *Pŵer yng Nghymru II: Pŵer a llais pobl ifanc yng Nghymru* https://www.electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/pwer-yng-nghymr/?lang=cy

Dempsey, N. (2017). *Turnout at elections*, House of Commons Library Briefing Paper Number CBP8060 researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-8060/CBP-8060.pdf

Scully, R., Larner, J. (2016). 'A Successful Defence: the 2016 National Assembly for Wales Election', *Parliamentary Affairs* (70, 3) 507-529.